# CYNLLUN STRATEGOL

# 2020-2025

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen



# Tuag at ddyfodol cynaliadwy – Gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd CyDA

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen (CyDA) yn elusen amgylcheddol ryngwladol flaenllaw, yn ganolfan amgylcheddol o'r radd flaenaf ac yn un o brif ddarparwyr addysg amgylcheddol ôl-raddedig yn y DU.

**Ein gweledigaeth** yw dyfodol cynaliadwy i'r holl ddynoliaeth fel rhan o fyd naturiol ffyniannus.

**Ein cenhadaeth** yw ysbrydoli, hysbysu a galluogi'r ddynoliaeth i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

## Sut rydym yn gweithio

Wrth wraidd CyDA, mae'r gred yng ngrym addysg mewn atebion positif. Amlinellir rhai o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'n gwaith isod.

## Mae CyDA yn:

**Ysbrydoli** – rydym yn tanio'r dychymyg, drwy helpu pobl i ragweld dyfodol lle mae'r ddynoliaeth wedi ymateb i'r her hinsawdd.

**Grymuso** – rydym yn rhoi'r deunydd sydd eu hangen ar bobl i chwarae eu rhan wrth greu dyfodol positif.

**Positif** – tra'n cydnabod maint yr her amgylcheddol, rydym yn parhau'n optimistaidd ac yn obeithiol am y dyfodol, gan roi'r cymhelliant i bobl wireddu newid.

**Canolbwyntio ar atebion** - rydym yn symud yn gyflym o heriau i atebion, gan ganolbwyntio ar y newidiadau sy'n gallu darparu'r effaith bositif fwyaf.

**Seiliedig ar dystiolaeth** – o ddeall maint yr heriau i fod yn realistig ynglŷn ag effeithiolrwydd yr atebion, mae ein holl waith yn cael ei lywio gan dystiolaeth wyddonol ac ymchwil arbenigol.

**Cynhwysol** – rydym yn credu ym mhŵer trawsnewidiol amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb. Dim ond drwy ymgysylltu â gwahanol safbwyntiau y gallwn herio ac ymestyn ein ffordd o feddwl, cyfoethogi profiadau ein gweithwyr, a grymuso pobl, gwneuthurwyr polisi a sefydliadau i wneud y newid radical sydd ei angen arnom i sicrhau dyfodol cynaliadwy ac adfywiol.

Crown copyright ©VisitWales.com

# Gyda phwy rydym yn gweithio

Mae CyDA ar gyfer pawb, a chredwn fod gan bawb ran i'w chwarae wrth adeiladu dyfodol di-garbon. O fewn y rhagolwg eang hwn, gellir crynhoi ein prif gynulleidfaoedd targed fel a ganlyn:

**Ein hymwelwyr:** Mae CyDA wedi gweithredu fel canolfan ymwelwyr ers 1975, drwy hysbysu ac ysbrydoli miloedd o ymwelwyr. Rydym yn cyrraedd cannoedd o filoedd drwy ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bwriadwn ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer y safleoedd hyn, yn CyDA ac ar-lein, gan helpu hyd yn oed mwy o bobl i ddysgu am atebion amgylcheddol.

**Ein myfyrwyr:** Yn 2020, croesawodd Ysgol yr Amgylchedd i Raddedigion CyDA ei charfan fwyaf erioed o dros 240 o fyfyrwyr, sef cyfanswm o dros 500 o fyfyrwyr llawn amser a rhan amser cofrestredig.

**Dysgwyr o bob oed:** O rieni a phlant bach hyd at ymweliadau niferus gan ysgolion a phrifysgolion bob blwyddyn, i'r amrywiaeth eang o gyfranogwyr o bob oed sy'n ymuno â'n cyrsiau byr, mae dysgwyr - ac wastad wedi bod - yn un o'n cynulleidfaoedd pwysicaf.

**Cynghorau, cymunedau, cwmnïau:**
Bydd y newid i ddyfodol di-garbon yn cael ei lywio, gan fwyaf, gan gymunedau a'u cynrychiolwyr etholedig. Bydd CyDA yn cefnogi cynghorau, cymunedau a chwmnïau wrth iddyn nhw drosi datganiadau argyfwng hinsawdd yn gynlluniau gweithredu.

**Gwneuthurwyr polisi:** Mae CyDA yn gweithio gyda gwneuthurwyr polisi ar bob lefel i helpu i sicrhau'r newidiadau brys sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn yn cynyddu'r gwaith hwn drwy ein Hyb Prydain Ddi-Garbon a'r Lab Arloesi newydd.

**Aelodau, cefnogwyr a graddedigion:**
Yn sail i bopeth a wnawn, aelodau, cefnogwyr a graddedigion CyDA yw ei henaid a rhan o'n hanes. Mae eu hymrwymiad i'n cenhadaeth graidd yn ffynhonnell o ysbrydoliaeth a gobaith mewn cyfnod heriol ac mae eu cyfraniad i CyDA yn helaeth ac amrywiol - fel rhoddwyr, y rhai sy'n codi arian, ffrindiau a llysgenhadon. Mae cefnogaeth miloedd o unigolion yn helpu i gryfhau ein llais ac i ddarparu sicrwydd ariannol ac annibyniaeth.
Byddwn yn canolbwyntio ar ehangu ac adeiladu'r rhwydweithiau hyn yn sylweddol yn ystod y pum mlynedd nesaf.











# Amser i drawsnewid

Mae'n rhaid i ddynoliaeth gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn canol y ganrif os ydym am osgoi chwalfa hinsawdd beryglus. Y cynharaf y caiff hyn ei gyflawni, y mwyaf yw ein siawns o gyfyngu ar godi tymheredd y byd i bron i 1.5°C.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni addasu ein seilwaith a'n ffyrdd o fyw i leihau effeithiau lefelau newid hinsawdd na ellir eu hosgoi bellach, a rhaid i ni fynd i'r afael â dinistrio ecosystemau a cholli bioamrywiaeth ar raddfa eang.

Mae'n her enfawr a bydd angen gweithredu ar bob lefel i helpu i weithredu atebion: mae gan unigolion, cymunedau, busnesau a'r llywodraeth rannau i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Gyda bron i 50 mlynedd o brofiad mewn atebion amgylcheddol, a degawd o arwain agweddau o ran sut gall y DU gyrraedd sero-net, mae gan CyDA rôl unigryw i'w chwarae.

### Adeiladu Prydain Ddi-Garbon


Mae prosiect Di-Garbon CyDA yn archwilio sut gallwn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth drwy amlinellu sut gall y DU gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net.

Trwy leihau'r galw am ynni mewn adeiladau, trafnidiaeth a diwydiant, cynyddu'r galw am gyflenwadau ynni glân o ynni adnewyddadwy, a thrawsnewid yr hyn rydym yn ei fwyta a sut rydym yn defnyddio tir, gallwn gyrraedd sero-net drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael heddiw.

Mae CyDA yn dangos sut gellir gwneud hyn mewn ffordd sy'n rhoi  buddiannau niferus ar y cyd, gan gynnwys ein helpu i addasu i effeithiau hinsawdd, adfer bioamrywiaeth, gwella iechyd y cyhoedd, lleihau tlodi tanwydd a bwyd, creu swyddi a gwella llesiant.

Mae holl waith CyDA wedi'i osod o fewn y fframwaith eang hwn, sy'n canolbwyntio ar y mesurau sydd eu hangen i gyflymu'r trawsnewidiad hwn, gan dynnu sylw at yr ysgogiadau mwyaf effeithiol ar gyfer newid, a rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ysbrydoliaeth i bobl chwarae eu rhan wrth adeiladu dyfodol gwell i'r holl ddynoliaeth fel rhan o fyd naturiol ffyniannus.





Roedd y tymheredd cyfartalog byd-eang yn 2020 **1.2** gradd Celsius yn uwch na'r cyfnod cyn-ddiwydiannol.[1]

Heb weithredu nawr, mewn pum mlynedd, bydd angen i ni leihau allyriadau **15.5%** bob blwyddyn 'sydd bron yn amhosib' [2]

I atal cynhesu y tu hwnt i 1.5°C, mae angen i ni leihau allyriadau **7.6%** bob blwyddyn o nawr tan 2030.[2]

Mae dros **40%** o rywogaethau bywyd gwyllt y DU yn gostwng ac mae **15%** mewn perygl o ddiflannu. Yng Nghymru, mae **17%** o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu.[3]




Ffynonellau: (1) Cymdeithas Feteorolegol y Byd (2) Adroddiad Bwlch Allyriadau UNEP 2019 (3) Adroddiad Cyflwr Natur 2019.

# Ysbrydoli, hysbysu a galluogi'r newid i fod yn ddi-garbon

Wrth i ni agosáu at ein hanner canfed blwyddyn, mae CyDA yn fwy perthnasol ac yn fwy angenrheidiol nag erioed o'r blaen. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gwelwyd cynnydd cyflym o ran ymwybyddiaeth a gweithredu ar newid hinsawdd. Roedd cyhoeddi adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) 'Cynhesu byd-eang o 1.5°C' yn 2018 yn drobwynt i wneuthurwyr polisi, tra bod gweithredu ymhlith dinasyddion wedi cyfrannu at gynnydd dramatig yn lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, mae'n hanfodol ein bod yn canolbwyntio ar atebion a dechrau adeiladu Prydain Ddi-Garbon.

I fod yn bobl sy'n creu newid effeithiol, mae angen gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth.

Drwy roi ysbrydoliaeth, gwybodaeth, addysg a hyfforddiant ar atebion positif sy'n gallu helpu i greu Prydain Ddi-Garbon, mae CyDA yn grymuso pobl, cymunedau, busnesau a gwneuthurwyr polisi i chwarae eu rhan wrth newid i sero-net.

Boed yn deulu sydd wedi'i ysbrydoli ar ôl treulio diwrnod yn ein canolfan ymwelwyr, myfyriwr ôl-raddedig yn datblygu gyrfa mewn cynaliadwyedd, neu gynghorydd lleol yn dysgu am gynllunio di-garbon, rydym yn helpu pobl i ddod yn rhan hollbwysig o'r symudiad hanfodol hwn ar gyfer newid.

### Rôl unigryw CyDA

Credwn fod gan bawb rôl i'w chwarae wrth adeiladu bywyd gwell – o blentyn â baner i wleidydd sy'n troi deddf yn gyfraith, rydyn ni gyd yn gallu creu newid.





# Amserlen CyDA











| | |
|---|---|
| **1973** | CyDA yn dechrau gyda rhodd o £20,000. |
| **1975** | Y ganolfan ymwelwyr yn agor. Yr adeilad cyntaf yn y DU i'w gynhesu'n llwyr gan solar (y cyntaf yn Ewrop fwy na thebyg). |
| **1977** | Cyhoeddi a chyflwyno Strategaeth Ynni Amgen ar gyfer y DU i'r Gweinidog Ynni Tony Benn. |
| **1982** | Dulas Engineering Ltd. yn cael ei sefydlu yn CyDA – ac yn mynd ymlaen i fod yn gwmni annibynnol, gan ddyfeisio oergell solar sy'n helpu i gadw brechlynnau mewn lleoliadau oddi ar y grid ar draws y byd. |
| **1988** | Adeiladu cabanau eco, gan gynnig profiad preswyl i ysgolion sy'n ymweld. Sefydlu Aber Instruments yn CyDA. |
| **1991** | Cwblhau rheilffordd y graig sy'n cael ei gydbwyso gan ddŵr. |
| **1996** | Gosod to PV mwyaf y DU yn CyDA. |
| **2000** | Agor Canolfan Wybodaeth Amgylcheddol CyDA. |
| **2003** | Codi tyrbin gwynt cymunedol cyntaf Cymru gyda CyDA. |
| **2007** | Lansio Ysgol yr Amgylchedd i Raddedigion CyDA.<br>CyDA yn cyhoeddi'r adroddiad Prydain Ddi-Garbon cyntaf. |
| **2010** | Agor canolfan addysg a chynadledda WISE – wedi'i hadeiladu gyda deunyddiau adeiladu ynni isel arbrofol, gan gynnwys y waliau pridd cywasgedig talaf yn y DU. |
| **2014** | Lansio MSc newydd mewn Cynaliadwyedd ac Ymaddasu. |
| **2017** | Cyrsiau MSc newydd mewn Bwyd Cynaliadwy ac Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd mewn Darpariaeth Ynni a Rheoli'r Galw. |
| **2018** | Cyhoeddi cyrsiau MSc newydd mewn Newid Ymddygiad, Adeiladu Gwyrdd ac Ecoleg. |
| **2019** | Cyhoeddi Hwb Prydain Ddi-Garbon a Lab Arloesi newydd, diolch i gefnogaeth y Moondance Foundation. |
| **2020** | Cyrsiau a digwyddiadau ar-lein a ddatblygwyd yn sgil yr ymateb i COVID-19, gan alluogi pobl i brofi CyDA o Gartref. |

# Straeon CyDA

### Trawsnewid adeiladu: Tom Robinson

Gweithiodd Tom gydag un arall o raddedigion CyDA i lansio Adaptavate, cwmni llwyddiannus sy'n ailfeddwl y ffordd y mae cynnyrch adeiladu yn cael eu cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu i'w gwneud yn fwy cynaliadwy.

Ar ôl bod yn adeiladwr cyn dod i CyDA i astudio, gwelodd Tom y gallai cysylltu ei sgiliau ymarferol â thechnegau ymchwil newydd helpu i leihau'r gwastraff tirlenwi sy'n cael ei greu gan y diwydiant adeiladu.

Disgrifiodd Tom ei gyfnod yn CyDA fel "y cydbwysedd perffaith o theori ac ymarfer gyda phobl wirioneddol ysbrydoledig."

Yn 2020, sicrhaodd Adaptavate £500,000 o gyllid Llywodraeth y DU i ddatblygu eu deunyddiau adeiladu cynaliadwy arloesol ymhellach.

### Ymchwil ar bolisi ynni a hinsawdd: Dr Jaise Kuriakose

Jaise oedd peiriannydd trydanol CyDA rhwng 2006 a 2012, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, datblygodd ei arbenigedd mewn systemau microgrid a chyfrannodd at ein gwaith ymchwil ac addysg.

Ar ôl gadael CyDA i gwblhau PhD mewn systemau grid clyfar, aeth Jaise yn ei flaen i fod yn ddarlithydd yng Nghanolfan Tyndall ar gyfer Ymchwil Newid Hinsawdd, lle mae ei ymchwil yn cynnwys trosi targedau newid hinsawdd byd-eang yn bolisi ynni a hinsawdd lleol a chenedlaethol, yn ogystal ag effeithiau hinsawdd ar seilwaith ynni ac atebion grid clyfar.

Yn 2020, cafodd Jaise ei ddewis yn un o 100 o arbenigwyr hinsawdd BAME y DU gan Climate Reframe. Mae'n cynghori gwneuthurwyr polisi ac yn rhoi areithiau cyhoeddus ar newid hinsawdd, ac mae'n dychwelyd i CyDA yn rheolaidd i gynnal darlithoedd gwadd ar gyfer ein myfyrwyr Meistr.

### Hwyluso ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr: Sonya Bedford MBE

"Y MSc yn CyDA oedd un o'r ymdrechion mwyaf heriol a gwerth chweil i mi ei wneud. Mae gan fy ngwaith fel cyfreithiwr yn y diwydiant ynni ddimensiwn newydd bellach oherwydd yr hyn a ddysgais yn CyDA. Erbyn hyn, gallaf wir ddeall technolegau adnewyddadwy a defnyddio'r hyn a ddysgais i wneud fy ngwaith yn llawer mwy gwerthfawr ym mhob ystyr."

Mae MSc Sonya mewn ynni adnewyddadwy wedi bod yn rhan o'i siwrnai i ddod yn Bennaeth Ynni yn Stephens Scown LLP, lle mae'n cynghori diwydiant ar ofynion cyfreithiol datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.

Mae Sonya hefyd yn eistedd ar fwrdd pum grŵp ynni cymunedol.

### Arloesi mewn ynni cymunedol: Agamemnon Otero MBE

Prif Weithredwr Gweithredol Repowering, Energy Garden, Hydra a Chyfarwyddwr Brixton Energy. Agamemnon oedd cyd-sylfaenydd corff eiriolaeth y diwydiant Community Energy England a bu'n eistedd ar Grŵp Cyswllt Ynni Cymunedol Swyddfa'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Mae ganddo MSc mewn Pensaernïaeth: Uwch Astudiaethau Amgylcheddol ac Ynni o CyDA/UEL a gweithiodd fel cyfarwyddwr Cyllid a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Prosiect Ynni Adnewyddadwy mewn sefydliad ariannol.

Yn 2014, cafodd ei wneud yn Arweinydd Llundain; yn 2016, derbyniodd yr MBE am wasanaethau i ynni cymunedol; ac yn 2017, cafodd ei enwi fel un o 51 o'r Arweinwyr Gwyrdd Mwyaf Effeithiol yn fyd-eang gan Gyngres y CSR.



### Cryfhau systemau bwyd lleol: Katie Hastings

Mae Katie yn adeiladu systemau bwyd, cymunedau ac economïau lleol.

Fel nifer, teimlai Katie ei bod wedi'i llethu gan faterion ansicrwydd bwyd, dirywiad tir a

bywyd gwyllt yn diflannu. Ond ar ôl lleoliad gwirfoddol chwe mis yn CyDA, dechreuodd lansio prosiectau lleol yn Machynlleth i gyfuno gwaith economaidd, cymdeithasol a chymunedol gyda thyfu bwyd. Mae'r dref gyfan bellach yn elwa - gyda bwyd, sydd am ddim i'w gasglu, yn tyfu ym mhob cornel sydd ar gael, gweithdai a digwyddiadau rheolaidd, mathau o rawn lleol yn cael eu harbed rhag diflannu a rhwydwaith ffyniannus o arddwyr marchnad sy'n cludo i aelwydydd a busnesau yn uniongyrchol. Mae CyDA bellach yn cefnogi gwaith Katie gyda'r rhaglen uchelgeisiol, Llwybrau i Ffermio, i hyfforddi cenhedlaeth newydd o dyfwyr wrth gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.




### Cymunedau Di-Garbon
### Partneriaeth Gweithredu Hinsawdd Swydd Amwythig

Mae Partneriaeth Gweithredu Hinsawdd Swydd Amwythig (www.ZeroCarbonShropshire.org) yn gydweithrediad rhwng busnesau, cymunedau, cynghorau ac unigolion sydd wedi ymroi i gyflawni carbon sero-net yn Swydd Amwythig erbyn 2030. Drwy seilio eu gwaith ar ymchwil CyDA ar Brydain Ddi-Garbon, maen nhw wedi datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Swydd Amwythig cynaliadwy a ffyniannus. Mae dros 100 o wirfoddolwyr o bob rhan o'r sir yn rhan o'r bartneriaeth, ynghyd ag ystod eang o fusnesau bach a mawr, elusennau, cynghorau a sefydliadau cymunedol, pob un yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol i adeiladu ar y glasbrint a ddarparwyd gan CyDA i fod yn ddi-garbon.












# Ein cyfeiriad strategol

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd gwaith CyDA yn canolbwyntio ar roi ysbrydoliaeth, hyfforddiant ac addysg mewn atebion positif i gyflymu'r newid i allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net.

Bydd tair thema drawsbynciol yn caniatáu newid sylweddol yn y ffordd rydym yn cyflawni ein cenhadaeth yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn ar gyfer atebion amgylcheddol.

### Safle Chwarel Llwyngwern

Canolfan amgylcheddol CyDA sy'n enwog ledled y byd, yw'r ffactor allweddol yn yr hyn sy'n gwneud y sefydliad hwn yn unigryw. Mae pobl wedi bod yn dod i CyDA i ddysgu ac i gael eu hysbrydoli ers i ni agor ein canolfan ymwelwyr am y tro cyntaf yn 1975.

Bellach mae angen ailddatblygu'r safle yn sylweddol er mwyn bodloni heriau a chyfleoedd y dyfodol, ac i chwarae rhan allweddol wrth roi ysbrydoliaeth, addysg a sgiliau ar gyfer newid i fod yn ddi-garbon.

Rydym yn datblygu gweledigaeth ac uwchgynllun ar ei newydd wedd ar gyfer y safle, ail-gynllunio'r ganolfan amgylcheddol yn sylweddol i greu atyniad twristaidd blaenllaw a hyb sgiliau rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar roi ysbrydoliaeth, addysg a sgiliau ar gyfer y newid i fod yn ddi-garbon.

### Gwaith allgymorth a phartneriaeth – mynd â CyDA y tu hwnt i'r chwarel

I helpu i gyflymu'r newid i fod yn ddi-garbon, mae angen i ni sicrhau ar fyrder bod ein neges yn cael ei chlywed gan amrywiaeth mor eang â phosib o gynulleidfaoedd.

Nodwedd bwysig o'n gwaith yn ystod y pum mlynedd nesaf fydd y defnydd cynyddol o ddarpariaeth ar-lein er mwyn ehangu cyrhaeddiad CyDA.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hollbwysig gweithio mewn partneriaeth: mae'r heriau sy'n ein hwynebu fel cymdeithas yn rhy fawr i unrhyw sefydliad fynd i'r afael â nhw ar eu pen eu hunain, a thrwy adeiladu partneriaethau strategol gyda grwpiau a sefydliadau perthnasol, byddwn yn gallu cyflawni mwy, mewn cyfnod byrrach, na chyfanswm ein hymdrechion unigol.

Ein nod yw cydweithio lle bo'n bosib, lle mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni ein hamcanion.

### Gwella amrywiaeth

Un o'n nodau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant ar bob lefel ymhlith ein staff ac ar draws cynulleidfaoedd allweddol, gan ein helpu i elwa ar ystod ehangach o leisiau a safbwyntiau ac ymgysylltu â nhw wrth i ni adeiladu symudiad ar gyfer newid.









# Ein blaenoriaethau allweddol

Mae gan CyDA gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol mewn cyfnod lle mae ei genhadaeth a'i wasanaethau erioed wedi bod mor berthnasol a'r galw mor uchel.

Gyda'r angen am weithredu brys ar newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn ystod y degawd nesaf, mae blaenoriaethau allweddol CyDA ar gyfer y pum mlynedd nesaf wedi'u hanelu at gynyddu cyrhaeddiad a chryfhau effaith ein gwaith. Wrth wneud hynny, byddwn yn ysbrydoli, hysbysu a galluogi llawer mwy o bobl i chwarae eu rhan wrth greu dyfodol cynaliadwy i'r holl ddynoliaeth fel rhan o fyd naturiol ffyniannus.

### 1) Ymgysylltiad cyhoeddus, ar safle CyDA a'n gwaith allgymorth

Mae ail-gynllunio ac ail-ddatblygu canolfan amgylcheddol CyDA yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2020-25, wrth lansio ymgyrch datblygu cyfalaf er mwyn galluogi adfywiad mawr.

Bydd ail-gynllunio'r ganolfan amgylcheddol yn cynnig microcosm o'r dyfodol yn seiliedig ar ddewisiadau cynaliadwy, wedi'u gwreiddio mewn dysgu o ansawdd uchel a gofodau hyfforddi ymarferol. Bydd y profiad dysgu hwn a'r profiad i ymwelwyr ymgolli yn cynnig ysbrydoliaeth a hyfforddiant i gannoedd o filoedd o bobl yn ein safle unigryw yng Nghanolbarth Cymru.

Mae newid i economi ddi-garbon yn gofyn am weithlu sydd wedi'i hyfforddi mewn insiwleiddio adeiladau a gosod gwresogi ynni adnewyddadwy a charbon isel. Bydd hyb sgiliau cynaliadwy newydd yn helpu Cymru i ddod yn arweinydd wrth ddarparu sgiliau ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym gynlluniau i gynyddu ein gwaith allgymorth yn gyflym er mwyn cyflwyno negeseuon a phrofiadau dysgu CyDA i gynulleidfa ddigidol llawer ehangach, drwy ddatblygu digwyddiadau, cyrsiau ac adnoddau ar-lein newydd.

### 2) Darparu sgiliau a gwybodaeth am ddyfodol di-garbon

Mae dros 2,000 o bobl wedi graddio o Ysgol yr Amgylchedd i Raddedigion CyDA, mae nifer ohonyn nhw bellach yn creu newid ysbrydoledig sy'n gweithio i wreiddio atebion hinsawdd a bioamrywiaeth ym mholisi ac arferion y llywodraeth, y sector cyhoeddus, diwydiant a chymdeithas sifil.

Yn 2020-25, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cyrsiau ôl-raddedig, gan ganolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Rydym yn anelu i adeiladu ar y cynnydd diweddar mewn ceisiadau, gyda chynlluniau am gynnydd cyson o flwyddyn i flwyddyn mewn niferoedd myfyrwyr, wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad mewn staffio a seilwaith. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth o fewn corff y myfyrwyr, a byddwn yn rhoi cynlluniau ar waith i wella ein prosesau recriwtio i gefnogi ceisiadau o grwpiau lleiafrifol.

### 3) Dylanwadu ar ddatblygiad polisi i gefnogi'r newid i fod yn ddi-garbon

Bydd y dewisiadau y mae ein llywodraeth yn eu gwneud nawr yn diffinio cyflwr ein cymdeithas a'n heconomi yn ystod y degawd nesaf. Mae angen clir a brys am dargedau mwy uchelgeisiol a chynlluniau sydd wedi'u hariannu'n briodol er mwyn i ni gyrraedd sero-net. Gan dynnu ar brofiad o bron i 50 mlynedd mewn atebion amgylcheddol, a dros degawd ar ymchwil Prydain Ddi-Garbon, mae gan CyDA rôl bwysig wrth helpu i ddatblygu polisi llywodraeth leol, rhanbarthol,



datganoledig a'r DU a fydd yn cefnogi'r newid i fod yn ddi-garbon.

Rydym yn bwriadu buddsoddi yn y maes hwn, drwy ddatblygu partneriaethau strategol gydag eraill yn y symudiad amgylcheddol a gwneuthurwyr polisi eraill, a gweithio gyda'n gilydd i gryfhau galwadau am weithredu ar y newid yn yr hinsawdd ac i rannu atebion di-garbon sydd wedi'u profi.



### 4) Cefnogi cymunedau ac awdurdodau lleol i newid i ddyfodol di-garbon

Yn 2020, sefydlodd CyDA Hyb Prydain Ddi-Garbon a Lab Arloesi newydd, diolch i gyfraniad sylweddol y Moondance Foundation. Mae'r prosiect hwn wedi creu newid yn ein ffordd o rannu atebion i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.



Bydd yr Hyb a'r Lab Arloesi yn gweithio gyda chynghorau, cymunedau a sefydliadau, gan helpu i adeiladu eu capasiti i weithredu atebion, creu newid systematig a chynyddu gwytnwch i newid hinsawdd.

Mae sesiynau hyfforddi, labordai arloesi cymdeithasol a hyb adnoddau ar-lein ymhlith rhai o'r ffyrdd y byddwn yn helpu i fagu hyder, gwybodaeth a sgiliau a darparu adnoddau sy'n eu galluogi i gyfrannu tuag at ddatblygu a chyflwyno cynlluniau gweithredu di-garbon.





# Datblygu ein sefydliad

I fod yn llwyddiannus yn ein cenhadaeth i ysbrydoli, hysbysu a galluogi'r ddynoliaeth i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan CyDA y capasiti a'r gwytnwch i gyflawni ein huchelgeisiau. Byddwn yn buddsoddi mewn meysydd allweddol y tu ôl i'r llenni er mwyn creu ffrydiau incwm newydd a datblygu'r rhai sy'n bodoli'n barod, ac i gryfhau capasiti a gallu'r sefydliad.

### 1) Adeiladu sefydliad sy'n ariannol gadarn

Mae bron i ddwy ran o dair o incwm CyDA yn cael ei gynhyrchu drwy fasnachu, ac un rhan o dair drwy roddion. Ceir cryfder mewn amrywiaeth, fel sy'n cael ei ddangos gan gadernid y sefydliad yn ystod COVID-19. Fel elusen addysgol, gallwn arallgyfeirio a chynyddu ein ffrydiau codi arian ymhellach drwy sicrhau grantiau a chontractau ar gyfer gwasanaethau o ffynonellau statudol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Mae ymgyrch codi arian cyfalaf uchelgeisiol i ail-gynllunio safle CyDA yn allweddol i'n cynllun pum mlynedd – ymgyrch a fydd yn helpu i greu newid sylweddol yn ein ffordd o godi arian.

Yn ogystal â'r ymgyrch codi arian cyfalaf byddwn yn anelu at sicrhau cyllid o ffynonellau statudol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau ar gyfer meysydd eraill o'n gwaith, gan gynnwys: Hyb Prydain Ddi-Garbon a Lab Arloesi (adeiladu ar gefnogaeth y Moondance Foundation); ein gwaith addysg; ein gwasanaeth gwybodaeth am ddim; gwirfoddoli; ac ehangu mynediad a chyfranogiad.

Mae CyDA wedi datblygu portffolio amrywiol o weithgareddau masnachu, yn bennaf ein Ysgol yr Amgylchedd i Raddedigion, canolfan ymwelwyr, lleoliad a llety, cyrsiau byr ac Ecostore. Mae'r strategaeth ariannol ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cynnwys datblygu proffidioldeb y rheini er mwyn cyflawni cenhadaeth CyDA.

### 2. Adeiladu capasiti a gallu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion nawr ac yn y dyfodol

Rydym yn cydnabod, er mwyn cyflawni ein cenhadaeth, bod angen i CyDA fuddsoddi ynddo'i hun fel sefydliad i gefnogi'r ffyrdd mwyaf effeithiol, effeithlon a phositif o weithio.

Mae buddsoddi yn natblygiad Bwrdd, staff, gwirfoddolwyr a seilwaith CyDA yn ystod y pum mlynedd nesaf yn greiddiol i'n gallu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol eraill.

Ymhlith y meysydd gwaith allweddol mae gwelliannau parhaus mewn llywodraethiant a pharhau i fuddsoddi yn y swyddogaethau hanfodol sy'n cefnogi gwaith CyDA, gan cynnwys adnoddau a seilwaith cyllid, Adnoddau Dynol a TG.



Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni fuddsoddi wrth alinio graddfeydd cyflog gyda chyfraddau'r farchnad yn CyDA i'n helpu i gadw a denu staff talentog – felly byddwn yn cynnal adolygiad cyflog cynhwysfawr yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn.



# CyDA MEWN RHIFAU

**40,000**
o ymweliadau â'r safle ac yn tyfu yn 2019

**500**
o fyfyrwyr yn astudio yn Ysgol yr Amgylchedd i Raddedigion

**1,000**
o bobl yn mynychu cyrsiau byrion CyDA

**20,000**
o ddilynwyr Twitter

Trosiant o **£3M**

**6,000**
o aelodau CyDA

**15**
o brifysgolion yn anfon grwpiau i CyDA

Ystâd **23** hectar

**50,000**
o ddilynwyr Facebook

**90**
o staff

**94**
o welyau ar y safle

**2,000**
o raddedigion CyDA

**14,000**
o oriau gwirfoddoli yn 2019



# YMUNWCH Â'R NEWID

Mae CyDA yn ymchwilio ac yn rhannu atebion ymarferol, cyraeddadwy i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Os hoffech fod yn rhan o yfory gwell, ymunwch â ni – a gadewch i ni ei adeiladu gyda'n gilydd.

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen


CAT Charity Ltd
Canolfan y Dechnoleg Amgen
Chwarel Llwyngwern
Machynlleth
Powys SY20 9AZ

www.cat.org.uk
contactus@cat.org.uk
+44 (0)1654 705950



Elusen Canolfan y Dechnoleg Amgen Cyf, cwmni cyfyngedig drwy warant: Rhif elusen. 265239; Rhif Cwmni. 1090006, cofrestrwyd yng Nghymru; swyddfa gofrestredig: Chwarel Llwyngwern, Machynlleth, Powys SY20 9AZ. Rhif TAW: 377 8917 83.


Llun ar y clawr: Sion Thomas